

4 Golomen Goll

Stori: Mared Llwyd

Bore dydd Sadwrn oedd hi, ac roedd Liwsi fy chwaer fach a minnau'n hwyr yn gadael y tŷ, fel arfer, ar gyfer ein gwern nofio.

"Celt, Liwsi, dewch yn eich blaenau!" gwaeddodd Mam am y degfed tro wrth sefyll yn ddiarnedd wrth ddrws y ffrynt. Ac roedd hi'n dal i bregethu wrth i ni gerdded lawr y dreif at y car.

"Mae hyn yn digwydd BOB bore dydd Sadwrn... Mae'n RHAID i chi'ch dau godi'n gynt, mae'n RHAID i chi fod yn fwy trefnus gyda'ch pethau nofio, mae'n RHAID ..." Stopiodd yn stond yn sydyn. "Beth yn y byd...?!"

Roedd llygaid Mam wedi'u hoelio ar olwyn ôl y car. I ddechrau, fedrai Liwsi a minnau ddim gweld beth ar wyneb y Ddaear oedd wedi tynnu'i sylw hi. Ond yna, fe welon ni, yn swatio'n glud y tu ôl i'r olwyn. Dwy droed fach bigog, swp o blu llwyd a gwyn â thwtsh o biws, pig fach finiog a dau lygad disglair.

"Be' sy' 'na?!" gofynnodd Liwsi, â thinc o banig yn ei llais.

"Hmmm... wel, mae e'n edrych yn rhyfeddol o debyg i anghenfil mawr blewog sy'n hoffi bwyta chwiorydd bach niwsans..." atebais innau'n goeglyd, cyn ychwanegu, "O, na, dwi'n meddwl 'mod i'n anghywir wedi'r cyfan. Aderyn sy' 'na!"

"Dyna ddigon, Celt," meddai Mam yn gadarn. "Gad lonydd i dy chwaer! Ond, ie, ti'n iawn, aderyn... colomen, a bod yn fanwl gywir."

Edrychodd y golomen arnon ni'n tri, gan wro'i phen i un ochr, fel pe bai hi wedi deall yn iawn ein bod ni'n siarad amdani.

"O, ma' hi mor bert!" meddai Liwsi.

"Ydy, mae hi," atebodd Mam. "Ond allith hi ddim aros o dan olwyn y car drwy'r dydd, neu chyrhaeddwn ni fyth o'r wers nofio! Dere nawr, golomen fach, bant â thi..."

Ond er i'r tri ohonom geisio'n gorau i'w chael hi i symud o'i chuddfan yn ymyl teiar ôl car Mam, trwy wneud synau ac ystumiau gwirion o bob math, symudodd y golomen yr un modfedd.

Dim ond parhau i syllu'n chwilfrydig arnom ni, fel pe baen ni'n hollol wallgof!

"Mae hi'n rhyfeddol o ddof," meddai Mam wedi i ni geisio i'w chael hi i symud am bum munud a mwy. "Ac edrychwch - mae ganddi fodrwy fach las o gwmpas ei choes chwith. Mae'n rhaid mai colomen rasio yw hi."

"Colomen rasio?" gofynnodd Liwsi. "Beth mae hynny'n ei olygu?"

"Wel, colomen sydd wedi hedfan o rywle ac sydd ar ei ffordd i rywle arall, fel rhan o ras," atebodd Mam.

"Ond pam ei bod hi'n aros fan hyn, y tu ôl i olwyn y car, os yw hi i fod yn rhan o ras?!" gofynnais innau. "Dyw hi ddim edrych fel pe bai hi ar frys i gyrraedd unrhyw linell derfyn!"

"Nadi, ti'n iawn!" atebodd Mam. "Gobeithio nad yw hi wedi brifo..."

Erbyn hynny, roedd Dad wedi ymuno â ni o'r tŷ.

"Ro'n i'n meddwl bod gan y ddau yma wers nofio bore 'ma..." meddai yntau'n ddryslud.

Cyrhaeddodd ni'r un wers nofio y bore hwnnw. Roedd y wers wedi hen orffen erbyn i ni lwyddo i gael Mrs Llwyd y golomen - fel y gwnaethon ni ei bedyddio hi'n ddiweddarach - allan o'r tu ôl i olwyn car Mam. Fe hedfanodd hi'n syth ar do car Dad, ac yno buodd hi am oriau wedyn. Cafodd fodd i fyw yn gwyllo'r byd yn mynd heibio ac yn busnesa ar fynd a dod y stryd. Heb sôn am adael ei marc - yn llythrennol - mewn sawl man ar hyd y to! "Daria'r golomen 'na!" oedd unig ymateb Dad!

Buodd Liwsi, Mam a finnau wrthi drwy'r bore yn ceisio canfod gwybodaeth ar y we am golomennod rasio, ac am Mrs Llwyd yn benodol. Dysgais i ei bod hi'n ddigon cyffredin i golomennod o'r fath aros am 'seibiant' bach yn ystod ras, er mwyn gorffwysu cyn parhau â gweddill eu taith. Dysgais ei bod hi hefyd yn berffaith iawn i fwydo colomennod rasio pe bai un yn digwydd aros yn eich gardd - â chnau adar, reis heb ei goginio neu ffacbys, a digon o ddŵr - ac i gynnig lloches iddyn nhw mewn bocs cardfwrdd mawr y tu allan.

Daeth Mam o hyd i wefan lle roedd modd mewnbynnu'r rhif ar y fodrwy ar goes chwith Mrs Llwyd er mwyn dod o hyd i fanylion ei pherchennog. Daethon ni i wybod mai o'r lwerddon roedd hi wedi hedfan (er na wnaethon ni fyth ddarganfod os mai ar ei ffordd o'r lwerddon ynteu nôl gartref i'r lwerddon roedd hi pan benderfynodd hi gymryd gwyliau bach yn ein gardd ni!). Anfonodd Mam e-bost at ei pherchennog i'w hysbysu ei bod hi'n saff gyda ni.

Gwrandda ar 4 stori, hefyd!

Cofia fod modd darllen a gwarndo ar y stori yma ar yr un pryd, drwy lawrlwytho Podlediad newydd sbon Cylchgrawn Cip! Neu mae fideo o Iwan Garmon yn darllen y stori ar gael ar dudalen YouTube yr Urdd.

Clicia fan hyn i wyllo'r fideo

youtu.be/XVrAjvSOLSY

Clicia fan hyn i wrando ar y Podlediad



4 Golomen Goll

Stori: Eurgain Haf

Aeth dros wythnos heibio ond chlywon ni'r un gair gan y perchennog. Erbyn hynny, roedd Mrs Llwyd wedi dod yn fwy fwy dof, ac roedden ni i gyd (hyd yn oed Dad, oedd wedi maddau iddi bellach am wneud llanast o do'r car!) yn mwyhau ei chael hi o gwmpas. Roedd rhywbeth annwyl a doniol iawn amdani, ac roedd hi'n amlwg yn dipyn o gymeriad!

Byddai hi'n treulio'r rhan fwyaf o'i hamser allan ar y dreif o flaen y tŷ, yn cerdded nôl a 'mlaen yn gwylio a busnesa, busnesa a gwylio. Pan gyrhaeddem ni adre o'r ysgol bob dydd, yno byddai hi o flaen drws y ffyrnt, yn barod i'n croesawu ni. Fe ddaeth Mam ar ei thraws hi yn y tŷ sawl tro, pan nad oedd drws y ffyrnt wedi'i gau'n iawn, yn eistedd yn hollol gyffyrddus ar lawr y gegin yn aros am ei bwyd! Bron y byddai hi'n fodlon bwyta o'n dwylo ni erbyn hynny, roedd hi mor ddof. Roedd hi fel anifail anwes, o fath - er nad oedd Pero'r ci yn rhy hoff o'r syniad hwnnw chwaith! Fe geisiodd Mrs Llwyd ei gorau i ddod yn ffrindiau ag e, ond ei hanwybyddu'n llwyr wnâi Pero, druan - fel pe bai'n ysu iddi adael er mwyn iddo yntau fod yn ganolbwynt ein holl sylw ni unwaith yn rhagor!

Wrth i'r dyddiau droi'n wythnos a mwy, cynyddu hefyd wnaeth hyder a haerllugrwydd Mrs Llwyd. Fe hedfanodd ar gefn Mam un tro ac eistedd ar ei phen yn hollol gyffyrddus am dros ddeng munud, heb boeni dim! A thro arall, bu'n cnocio'n flin ar ffenestr swyddfa Dad tra'i fod yntau mewn cyfarfod pwysig gyda'i fos dros y cyfrifiadur! Wrth i'r dyddiau droi'n wythnos a mwy, cynyddu hefyd wnaeth hyder a haerllugrwydd Mrs Llwyd. Fe hedfanodd ar gefn Mam un tro ac eistedd ar ei phen yn hollol gyffyrddus am dros ddeng munud, heb boeni dim! A thro arall, bu'n cnocio'n flin ar ffenestr swyddfa Dad tra'i fod yntau mewn cyfarfod pwysig gyda'i fos dros y cyfrifiadur!

Wydden ni ddim ble âi Mrs Llwyd i gysgu dros nos - i ganghennau un o'r coed tal yn yr ardd, siŵr o fod, ac âi diwrnod neu ddau heibio weithiau heb i ni ei gweld o gwbl. Ar ôl tridiau heb olwg ohoni, fe ddechreuon ni feddwl ei bod hi wedi gadael, fwy na thebyg, i ail-ymuno â pha bynnag ras roedd hi'n rhan ohoni.

Ond yna, fe ddysgon ni ei bod hi wedi dod yn ffrindiau mawr â Mr a Mrs Davies drws nesaf, a bod Mrs Davies hyd yn oed wedi dod o hyd iddi yn swatio'n braf yn y fasedg olch yn eu cegin nhw!

Yna, un bore, bron i bythefnos ers i Mrs Llwyd ymddangos gyntaf, daeth e-bost gan ei perchennog. Roedd e'n ymddiheuro am beidio ag ymateb ynghynt ac yn ddiolchgar iawn i ni am gysylltu. Roedd Mrs Llwyd (nid ei henw iawn hi, wrth gwrs!) yn golomen rasio werthfawr, meddai e, ac roedd e'n awyddus i'w chael hi yn ôl. Byddai'n trefnu i gyswllt lleol ddod i'w chasglu ymhen rhai dyddiau er mwyn ei chludo hi nôl i'r lwerddon.

Wyddwn i ddim sut i ymateb i'r newyddion. Roeddwn i'n falch, wrth reswm, o feddwl fod Mrs Llwyd yn mynd i gyrraedd adre'n saff. Ond roeddwn i hefyd fyryn yn drist. Wedi'r cyfan, roedd hi wedi dod yn rhan o'r teulu yn ystod ei chyfnod gyda ni, a gwyddwn y byddwn yn gweld ei heisiau - hi a'i ffyrdd bach doniol! Roedd y syniad o weld rhywun yn dod i'w chasglu mewn caetsh yn fy ngwneud yn ddigalon, a dweud y gwir.

Ond doedd dim angen i fi boeni am hynny. Yn union fel pe bai hi wedi deall yr hyn oedd ar droed, fe benderfynodd Mrs Llwyd ei hun ei bod hi'n bryd iddi adael. Fore trannoeth, doedd dim sôn amdani, er i ni chwilio ym mhob twll a chornel o'r ardd, a'r gerddi cyfagos hefyd. Ddaeth hi ddim yn ôl drennydd chwaith, na thradwy. Roedd hi wedi mynd go iawn y tro hwn.

I ble, wyddem ni ddim. Nôl gartref i'r lwerddon, o bosib, gan ddilyn y cwmpawd mewnol anhygoel sydd gan adar o'r fath? Neu ymlaen ar ei thaith, ac i ardd rhywun arall i gael hoe a sylw a maldod am rai wythnosau eto? Mae'n siŵr na chawn ni fyth wybod. Ond dwi'n reit sicr o un peth - lwyddodd hi ddim i ennill unrhyw ras ar ôl seibiant mor hir!

Y Diwedd

Gwrandda ar 4 stori, hefyd!

Cofia fod modd darllen a gwarndo ar y stori yma ar yr un pryd, drwy lawrlwytho Podlediad newydd sbon Cylchgrawn Cip! Neu mae fideo o Iwan Garmon yn darllen y stori ar gael ar dudalen YouTube yr Urdd.

Clia fan hyn i wyllo'r fideo

youtu.be/XVrAjsSOLSU

Clia fan hyn i wrando ar y Podlediad

